P 15

Ymchwiliad i’r Adolygiad Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Inquiry into the Priorities for the Health, Social Care and Sport Committee

Ymateb gan: Coleg Brenhinol y Meddygon

Response from: Royal College of Physicians

Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

# Ymchwiliad i flaenoriaethau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Ymateb RCP Cymru

**Amdanom ni**

Mae Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) yn anelu at wella gofal cleifion a lleihau salwch, yn y DU a thrwy'r byd. Rydym yn canolbwyntio ar y claf ac yn arwain yn glinigol. Mae ein haelodaeth o 30,000 drwy'r byd yn gweithio mewn ysbytai a chymunedau mewn 30 o arbenigeddau meddygol gwahanol, yn gwneud diagnosis ac yn trin miliynau o gleifion gydag amrediad enfawr o gyflyrau meddygol.

Wrth weithio gyda chleifion a gofalwyr pob cam o'r ffordd, mae'r RCP yn gweithio er mwyn sicrhau bod meddygon yn cael eu haddysgu a'u hyfforddi i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Rydym ni'n archwilio ac yn achredu gwasanaethau clinigol ac yn darparu adnoddau ar gyfer ein haelodau i asesu eu gwasanaethau eu hunain. Rydym ni'n gweithio gyda sefydliadau iechyd eraill er mwyn gwella ansawdd gofal meddygol, ac er mwyn hyrwyddo ymchwil ac arloesedd. Yn ogystal, rydym ni'n hyrwyddo polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r llywodraeth er mwyn annog ffyrdd iach o fyw a lleihau salwch o achosion y gellir eu hatal.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda'n cyfadrannau, cymdeithasau arbenigol a cholegau brenhinol meddygol eraill ar faterion sy'n amrywio o addysg a hyfforddiant clinigol at bolisi iechyd, rydym yn cyflwyno llais pwerus ac unedig er mwyn gwella iechyd a gofal iechyd.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Lowri Jackson**
Uwch gynghorydd polisi a materion cyhoeddus yr RCP dros Gymru
[redacted]

Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH
[redacted]
**www.rcplondon.ac.uk/wales**

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

From the RCP vice president for Wales
O'r is-lywydd yr RCP dros Gymru
**Dr Alan Rees MD FRCP**
[redacted]

SeneddHealth@assembly.wales

From the RCP registrar
O'r cofrestrydd yr RCP
**Dr Andrew Goddard FRCP**
[redacted]

**02 Medi 2016**

Annwyl Gydweithiwr,

## Ymchwiliad i flaenoriaethau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar ymchwiliad pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru i flaenoriaethau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

### Ein hymateb

Bydd RCP Cymru yn ymateb i ymchwiliadau presennol ar gynaliadwyedd gweithlu'r GIG a bod yn barod am aeaf 2016-17. Yn seiliedig ar flaenraglen waith y Pwyllgor newydd, byddai'r RCP yn ogystal yn cefnogi gwaith pellach ar:

- Integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Amseroedd aros
- Effeithlonrwydd o fewn y GIG ac ymarferion rheoli modern
- Chwaraeon ac iechyd cyhoeddus

Yn dibynnu ar y cylch gorchwyl, gallwn ddymuno yn ogystal ymateb i'r ymchwiliadau canlynol:

- Gwasanaethau ambiwlans
- Unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn

### Mae angen modelau newydd ar gyfer gofal

Fodd bynnag, tra ein bod yn cydnabod bod gan ofal sylfaenol broblemau cynyddol ynglŷn â chapasiti a'r gweithlu, rydym ni angen symud i ffwrdd oddi wrth fodel gofal lle rydym ni'n buddsoddi mewn *un ai* gofal sylfaenol neu eilaidd, a thuag at weithio mewn tîm integredig, lle mae mwy o'r arbenigwyr mewn ysbytai yn cynnal mwy o'u clinigau yn y gymuned, a meddygon teulu yn treulio rhan o'u hamser yn gweithio gyda chydweithwyr wrth ddrws ffrynt yr ysbyty. Rydym ni angen adeiladu ar y set o sgiliau sydd gan ein gweithlu presennol er mwyn cyflawni modelau newydd o ofal yn y dyfodol.

Yn lle canolbwyntio ymchwiliad yn benodol ar ofal sylfaenol fel yr awgrymodd y Pwyllgor, byddem ni'n croesawu sgwrs aeddfed ynglŷn â dyfodol cynllunio gwasanaethau yng Nghymru, a'r weledigaeth sydd ei hangen ar lefel genedlaethol i ddatblygu ffordd newydd o weithio. P'un ai yw hyn yn rhan o'r ymchwiliad arfaethedig ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig, neu'n ymchwiliad ar wahân, rydym ni'n teimlo ei bod yn bwysig nad yw buddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol yn cyfrannu tuag at gefnogi'r hen system ddrylliedig.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru hyrwyddo modelau arloesol o integreiddio a chyflwyno cyllidebau ar y cyd sy'n sefydlu canlyniadau a rennir ar draws y sector iechyd a gofal lleol. Ni fydd gwario'r arian ar y system bresennol yn newid unrhyw beth yn yr hirdymor; mae'n rhaid i fyrddau iechyd fuddsoddi mewn atal a thrin cyflyrau cronig a galluogi clinigwyr i arloesi.

Mae'n rhaid peidio ag anghofio yn ogystal y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell; yn yr ardaloedd hyn, y mae'r argyfwng mewn gofal sylfaenol yn ei gyflwr gwaethaf, a lle mae gan fodel gofal uchelgeisiol newydd y potensial mwyaf. Bydd hyn i gyd angen newid mawr yn y cyfeiriad meddwl. Mae RCP wedi bod yn gofyn ers tro am fwy o arweinyddiaeth ac ymgysylltiad clinigol a mwy o feddwl cydgysylltiedig rhwng cynllunio gwasanaethau ac anghenion hyfforddi. Yn awr, mae'n amser i ailfeddwl sut y bydd gweithlu'r GIG yn y dyfodol yn hyfforddi, datblygu eu sgiliau ac yn ymarfer eu meddygaeth.

## Ein blaenoriaethau dros y bum mlynedd nesaf

Mae'r RCP yng Nghymru wedi nodi pedwar o brif flaenoriaethau ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad:

1 **Gweithredu dull newydd wedi'i ganoli ar y claf tuag at newid y GIG**
Mae'n rhaid i newid fod wedi'i ganoli ar y claf, wedi'i arwain gan glinigwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac ni ddylai fod ynglŷn â lleihau costau. Dylai'r aildrefnu fod yn seiliedig ar fodel gofal Ysbyty'r Dyfodol, lle mae'r gofal yn dod at y cleifion ac yn cael ei gydlynu o gwmpas eu hanghenion.

2 **Buddsoddi yn awr yn GIG Cymru er mwyn sicrhau gofal da yn y dyfodol**
Nid oes gan ein hysbytai ddigon o adnoddau ac maen nhw o dan bwysau - mae angen cynyddu'r cyllid. Mae'n rhaid i fyrddau iechyd a gwleidyddion gefnogi clinigwyr i ddatblygu atebion arloesol i argyfwng y GIG, yn arbennig felly, mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Dylid canolbwyntio o'r newydd ar ddatblygu modelau o ofal integredig a gwella'r profiad i gleifion bregus a'u teuluoedd.

**3 Canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi'r gweithlu meddygol**

Mae'n amser ar gyfer gweithlu meddygol cenedlaethol a chynllun hyfforddi i Gymru, yn cynnwys dull strategol newydd tuag at recriwtio. Mae'n rhaid i feddygon iau a myfyrwyr meddygol gael eu hannog i aros yng Nghymru, gyda llwybrau hyfforddi newydd, gwell beichiau gwaith a mwy o gyfleoedd arweinyddiaeth glinigol.


**4 Lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd cyhoeddus**

Mae'n rhaid i wleidyddion a llywodraeth ddangos arweinyddiaeth genedlaethol ar iechyd cyhoeddus. Dylid defnyddio deddfwriaeth lle ceir tystiolaeth i gefnogi'i defnydd, yn cynnwys pecyn safonedig ar gyfer nwyddau tybaco, isafswm pris yr uned am alcohol o 50c yr uned, ac archwilio'r defnydd o drethi ar ddiodydd meddal siwgwraidd er mwyn ymdrin â gordewdra.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â Lowri Jackson, uwch gynghorydd polisi a materion cyhoeddus yr RCP dros Gymru yn [redacted].

Gyda dymuniadau gorau,





**Dr Alan Rees**
RCP vice president for Wales
Is-lywydd yr RCP dros Gymru

**Dr Andrew Goddard**
RCP registrar
Cofrestrydd yr RCP